

Pwyllgor Diwylliant - CC-5-02(p.1)

Dyddiad: 27 Chwefror 2002
Amser: 10.00am-1.00pm
Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru

YR ADOLYGIAD O'R IAITH GYMRAEG: CRYNODEB O'R YMATEBION I'R BROSES YMGYNGHORI

Cyflwyniad

Ceir yn y papur atodedig grynodedb o'r ymatebion yn sesiynau tystiolaeth y Pwyllgor yn ystod yr adolygiad ynghyd â'r ymatebion ysgrifenedig. Mae'r Pwyllgor wedi cynnal 11 o sesiynau tystiolaeth lafar, ac wedi clywed sylwadau 48 o unigolion a chyrrff. Cafwyd dros 200 o gyflwyniadau ysgrifenedig, gan gynnwys sylwadau gan y rhai a roddodd dystiolaeth ar lafar yn ogystal. Ceir rhestr o'r rhai a ymatebodd yn Atodiad A.

Caiff y Pwyllgor ddadansoddiad mwy manwl o'r dystiolaeth ynghylch themâu'r papur ymgynghori - gan gynnwys darlledu a'r dechnoleg newydd a thwristiaeth ddiwylliannol, nad ydynt yn rhan o'r crynodeb atodedig - mewn pryd ar gyfer ei drafodaethau. (Gweler papur 5).

Crynodeb o'r Sylwadau

Er bod y papur ymgynghori'n gofyn am sylwadau ar nifer o themâu:-

- Teuluoedd a Chymunedau
- Datblygu Economaidd
- Ymchwil a Datblygu
- Hyrwyddo Dwyieithrwydd a Chynnal Consensws Cenedlaethol ac Ewyllys Da
- Buddsoddi Cyhoeddus a Strwythurau Cyflenwi

y chydig iawn o'r rhai a ymatebodd a soniodd am y themâu hyn. Manteisiodd y mwyafrif ar y cyfle i leisio barn am gyflwr yr iaith nawr, y cyd-destun hanesyddol a'r hyn sydd ar y gweill yn y dyfodol. Er mwyn ceisio rhoi trefn ar y crynodeb, mae'r papur hwn yn trafod y prif themâu/ pynciau a gododd yn ystod yr adolygiad. Mae'n dechrau drwy drafod hanfodion statws yr iaith, yr angen am ragor o ddeddfwriaeth a'r hyn a olygir wrth ddwyieithrwydd, cyn troi at ganolbwynt unrhyw bolisi neu strategaeth newydd a'r meysydd hynny y mae angen mynd i'r afael â hwy. Mae'n sôn i gloi am swyddogaethau.

Casgliadau

Braslun yn unig sydd yn y papur hwn, ac efallai y bydd yr aelodau am droi at y cyfraniadau unigol, sydd ar gael gan yr Ysgrifenyddiaeth. Er hynny, mae'r papur yn awgrymu y dylid troi at rai cyflwyniadau'n benodol wrth ymdrin â'r pynciau trafod.

YR ADOLYGIAD O'R IAITH GYMRAEG: CRYNODEB O'R DYSTIOLAETH

Statws yr iaith.....	3
Cynllunio, Trosglwyddo a Newid iaith.....	4
Mewnfudo ac Allfudo.....	5
Datblygu Economaidd a Chymunedol.....	6
Addysg Feithrin ac Addysg i Oedolion.....	8
Cyfieithu.....	9
Swyddogaethau.....	10

ATODIAD – RHESTR O'R RHAI A YMATEBODD

STATWS YR IAITH

Dewisodd sawl un a ymatebodd drafod materion sylfaenol megis statws yr iaith, a oes angen rhagor o ddeddfwriaeth, a'r hyn a olygir wrth ddwyieithrwydd yng Nghymru.

Statws a Deddfwriaeth

Cafodd y Pwyllgor gyngor gan y Cwnsler Cyffredinol ynghylch y sefyllfa deddfwriaethol yn nyddiau cynnar yr adolygiad (CC-9-01 (cof)). Nid oedd y Cwnsler Cyffredinol o'r farn bod angen Deddf iaith newydd ar fyrder er mwyn creu Cymru ddwyieithog, ond dywedodd bod

angen rhoi prawf ar y ddeddfwriaeth bresennol cyn y gallai roi barn fwy pendant. Ategwyd hynny gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Yn ystod yr ymgynghori, cydnabuwyd dylanwad cadarnhaol Deddf 1993 ac awgrymwyd ei bod, drwy ganiatáu cyfreithloni defnyddio'r Gymraeg yn y sector cyhoeddus yn arbennig, wedi codi statws a phroffil yr iaith. Roedd cyfran fach o gyrff o'r farn, fodd bynnag, bod angen Deddf iaith newydd a hynny am amryw o resymau:

- datgan mai'r Gymraeg yw iaith genedlaethol/frodorol Cymru
- sicrhau bod y Gymraeg yn iaith fyw yn y gymuned
- gwneud y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru (h.y. yn gydradd â'r Saesneg)
- ymestyn y darpariaethau i'r sector preifat (ac yn arbennig y corfforaethau cyhoeddus a breifateiddiwyd) a'r sector gwirfoddol
- rhoi lle i'r iaith yn y chwyldro technolegol
- peri bod modd dewis rheithwyr sy'n deall Cymraeg
- cydnabod amrywiaethau rhanbarthol (gweler, inter alia, CC –13 – 01 (p1a)).

Nid oedd pawb o'r un farn. Dywedodd un cyfrannwr na fyddai rhagor o ddeddfwriaeth yn golygu o reidrwydd y byddai mwy o bobl yn gallu siarad Cymraeg, ac y gallai arwain yn y pen draw at bolareiddio cymdeithas yng Nghymru. Roedd y sector busnes yn credu y gallai unrhyw ymdrech i'w orfodi i ddefnyddio'r iaith fod yn wrthgynhyrchiol, a'i bod yn bwysicach meithrin consensws ac ewyllys da, yn arbennig ymhlith busnesau bach, ac yn arbennig mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn iaith leiafrifol. Dywedodd y Pwyllgor Datblygu Economaidd y byddai angen ymgynghori ymhellach â'r sector preifat pe rhoddid ystyriaeth i osod rhwymedigaethau statudol arno.

Yn olaf, yn ogystal â'r galwadau i wneud y Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd swyddogol yng Nghymru, cynigiwyd y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ddatgan mai'r Gymraeg yw priod iaith Cymru.

Dwyieithrwydd

Nid oedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd yn amau'r egwyddor o gael Cymru ddwyieithog ond ychydig ohonynt a aeth ati i geisio diffinio'r hyn y mae hynny'n ei olygu neu y dylai olygu'n ymarferol. Dyma rai o'r sylwadau:

- Mae angen sefyllfa ieithyddol sefydlog ar wlad ddwyieithog lle mae mwyafrif y boblogaeth mewn rhai ardaloedd yn medru'r iaith leiafrifol yn dda
- Golyga dwyieithrwydd bod pobl yn siarad dwy iaith tra golyga diglossia bod dwy iaith yn bodoli ochr yn ochr o fewn ffiniau daearyddol

- Dywedodd sawl un nad yw dwyieithrwydd yn golygu gweithio mewn un iaith a'i chyfieithu i iaith arall
- Aeth un corff gam ymhellach ac awgrymu y dylem roi polisïau ar waith mewn ffordd ddeuddiwylliannol, h.y. mewn ffordd sy'n ieithyddol ac yn ddiwylliannol briodol i'r ddwy gymuned ieithyddol.

Yn olaf, gan fod cysyniad dwyieithrwydd yn amrywio ledled y wlad, dywedodd rhai y byddai canllawiau cenedlaethol o gymorth, er enghraifft o ran rhesymoli'r gwaith o ddarparu ac ariannu gwasanaethau.

CYNLLUNIO, TROSGLWYDDO A NEWID IAITH

Yn nogfen Bwrdd yr Iaith "Cenhadaeth a Gweledigaeth" y cafwyd y datganiad mwyaf cyflawn ar gynllunio ieithyddol. Awgryma fod pedwar maes gwahanol (a phob un yn angenrheidiol) i gynllunio ieithyddol:

- Cynllunio caffaeliad
- Trosglwyddo iaith yn y teulu
- Addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg ddwyieithog
- Cynllunio defnyddio
- Defnyddio'r Gymraeg fel offeryn, ee defnydd economaidd
- Defnyddio'r Gymraeg yn gyfunol, hy ym mhob maes - defnydd cymdeithasol, diwylliannol, hamdden a chymunedol
- Cynllunio statws
- Cynllunio corpws
- Yr angen am safoni ieithyddol
- Angen i ddatblygu ffurf ar Gymraeg sy'n boblogaidd, yn fuddiol ac yn cael ei defnyddio.

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn cefnogi elfennau o ddadansoddiad y Bwrdd. Dywedodd un fodd

bynag na ellir rhoi "Cenhadaeth a Gweledigaeth" yn llwyr ar waith gan nad oes gan Fwrdd yr Iaith ddigon o adnoddau.

Ymhlith y syniadau eraill a gyflwynwyd i'r Pwyllgor roedd GIDS ('Graded Intergenerational Disruption Scale') sy'n darparu continwwm fesul cam y mae'n rhaid i iaith deithio ar hyd-ddo. Awgrymwyd bod gwahanol gymunedau ieithyddol yng Nghymru wedi cyrraedd gwahanol fannau ar raddfa GIDS ac y dylai'r wlad felly gael ei rhannu'n "Barthau Datblygiad Ieithyddol Arbennig".

Ar lefel sirol roedd un Awdurdod wedi datblygu strategaeth iaith Gymraeg er mwyn mynd ati'n strategol ac yn gyfannol gyda'i bartneriaid allweddol i ymdrin â chynllunio ieithyddol. Roedd pum fforwm wedi'u datblygu: busnes a'r economi; iechyd a gofal cymdeithasol; addysg a hyfforddiant; hamdden a diwylliant; gweithredu cymunedol a gwirfoddol.

Un maes a oedd yn peri pryder arbennig oedd **trosglwyddo iaith** yn y teulu. Dim ond 92% o deuluoedd lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg sy'n siarad Cymraeg â'u plant, a dim ond hanner y teuluoedd lle mae un rhiant yn ddwyieithog sy'n siarad Cymraeg a'u plant. Tanlinellwyd difrifoldeb y sefyllfa pan ddywedwyd y bydd mesurau megis cynlluniau iaith statudol, llyfrau a chyfryngau Cymraeg ac ati oll yn ofer oni siaredir yr iaith yn y cartref a'r ysgol.

Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid mynd i'r afael â'r sefyllfa drwy gynnal ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a marchnata cenedlaethol, a rhoi canllawiau a hyfforddiant i deuluoedd a chymunedau. Rhoddwyd canmoliaeth arbennig i brosiect trosglwyddiad Bwrdd yr Iaith.

Roedd un mater sylfaenol arall a oedd yn peri pryder - **y data dibynadwy sydd ar gael** ynghylch defnydd a darpariaeth y Gymraeg, ac agweddau at yr iaith ar brydiau hefyd. Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn y dylid rhoi blaenoriaeth i wneud gwaith ymchwil yn y maes hwn.

MEWNFUDO AC ALLFUDO

Mae rhai'n dadlau, er bod sawl ffactor wedi cyfrannu at ddirywiad yr iaith (ee diboblogi, dirwasgiad economaidd), mai'r ddau ffactor mwyaf dylanwadol sydd wedi prysuro'r dirywiad yng nghanran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn y cadarnleoedd yw bod pobl leol yn symud oddi yno a phobl ddi-Gymraeg o'r tu allan yn symud i mewn.

Awgrymwyd argymhellion manwl ar gyfer rheoli mewnfudo drwy bolisiau cynllunio a thai, yn eu plith:

- Y dylai'r Awdurdodau Lleol ddiwygio'u Cynlluniau Datblygu Unedol er mwyn rhoi blaenoriaeth i'r farchnad dai
- Y dylid defnyddio Cytundebau A106 i neilltuo tai i'r boblogaeth leol

- Y dylai'r Awdurdodau Lleol gynnal adolygiadau cynhwysfawr yn rheolaidd er mwyn asesu sefyllfa'r Gymraeg ym mhob cymuned
- Y dylid adolygu TAN 20 er mwyn cynnwys canllawiau ar gomisiynu Asesiadau o Effaith ar Iaith ym mhob cais cynllunio i wneud gwaith datblygu sylweddol
- Y dylid cymryd camau i reoli marchnad y tai haf ac ail gartrefi (CC 08-01 p4)

Awgrymodd eraill y dylid cynnal arolygon ar broffiliau ieithyddol a ffactorau eraill megis anghenion o ran tai a phatrymau mudo. Cynigiwyd hefyd y dylid dynodi ardaloedd ieithyddol, a bod yr iaith, ynghyd â nodweddion eraill, mor sensitif fel y dylai fod yn un o brif ystyriaethau'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac yn llunio polisiau o fewn y system gynllunio. Awgrymwyd y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gomisiynu gwaith ymchwil ar ymarferoldeb mesurau newydd blaengar i fynd i'r afael â materion ieithyddol ym maes cynllunio. (CC 08-01 p3)

DATBLYGU ECONOMAIDD A CHYMUNEDOL

Fel yr awgrymwyd uchod, honnir bod allfudo ymhlith y ffactorau mwyaf dylanwadol yn nirywiad y cymunedau Cymraeg. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod 279 o gymunedau ledled Cymru wedi cofnodi bod o leiaf 80% o'u trigolion yn gallu siarad Cymraeg ym 1961, ond bod hynny wedi gostwng i 32 ym 1991. Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn mai diffyg cyfleoedd economaidd yn yr ardaloedd hynny oedd wedi achosi'r dirywiad ac awgrymwyd nifer o fesurau i atal y dirywiad.

Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi trafod y gostyngiad yn nifer y cymunedau Cymraeg yn y cadarnleoedd, h.y. ardaloedd gwledig y gogledd a'r gorllewin, dywedodd eraill bod diddordeb ar gynnydd mewn ardaloedd eraill ac yn arbennig felly'r cymoedd, a bod hynny hefyd yn allweddol i ddyfodol yr iaith. Heb economi gref ledled Cymru, meddid, ni all yr ardaloedd hyn oroesi; ac mae hynny'n mynd y tu hwnt i'r ddadl ynghylch yr iaith.

Credai'r sector busnes mai'r ffordd orau y gallai gynorthwyo'r iaith i oroesi a datblygu fyddai cynnig gwaith mewn ardaloedd Cymraeg, ond bod angen i'r Cynulliad greu'r amgylchedd iawn er mwyn i hynny ddigwydd. Dylid:

- Gwneud Cymru, ac yn arbennig y cadarnleoedd Cymraeg, yn ddeniadol i fusnesau. Awgrymwyd y byddai hynny'n gofyn gweithredu mewn sawl maes polisi ac efallai felly y byddai angen herio syniadau cyfredol
- Gwella'r isadeiledd trafndiaeth, a chydabod bod pobl yn ddibynnol ar eu ceir a bod pobl a nwyddau'n defnyddio'r ffyrdd

- Ailystyried canllawiau cynllunio sy'n rhoi pwyslais ar ddatblygu safleoedd tir llwyd neu'n gosod amodau beichus ar ddatblygu mewn ardaloedd gwledig.

Tynnodd rhai o'r cyfranwyr eraill sylw at yr angen am well isadeiledd trafndiaeth. Roeddent o'r farn bod cyflwr gwael yr isadeiledd hwnnw ar hyn o bryd yn un o'r prif resymau dros fethu â denu cyflogwyr mawr i Gymru.

Awgrymodd nifer o fudiadau y gellid datganoli cyrff megis Bwrdd Croeso Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ELWa, S4C a'r Cynulliad er mwyn ceisio rhoi hwb i economi a statws y cadarnleoedd Cymraeg.

Ymhlith rhai o'r awgrymiadau eraill roedd:

- Datblygu Strategaeth y Farchnad Lafur er mwyn creu swyddi deniadol i siaradwyr Cymraeg ifanc
- Creu Awdurdod Datblygu Economaidd ar gyfer cymunedau Cymraeg er mwyn sefydlu a datblygu cwmnïau brodorol, denu mewnfuddsoddi priodol a sicrhau nad yw datblygu economaidd yn groes i fuddiannau'r Gymraeg
- Rhoi benthyciadau di-log i gwmnïau brodorol
- Diogelu ffermydd teuluol sy'n hanfodol bwysig i ddyfodol yr iaith
- Sefydlu cronfa gymunedol i helpu cymunedau lleol i brynu neu reoli tafarndai, siopau pentref, swyddfeydd post neu wasanaethau lleol eraill.

Yn olaf, roedd pryder mawr ynghylch arian Amcan 1, o ystyried bod 75% o siaradwyr Cymraeg yn byw yn yr ardaloedd dynodedig. Y farn oedd y byddai llwyddiant neu fethiant y Gronfa'n cael cryn ddylanwad ieithyddol ac economaidd ac y dylai hyrwyddo'r Gymraeg fod yn ystyriaeth wrth benderfynu ynghylch prosiectau. (CC 17-01p3, CC 16-01p2, CC 04-02p4, CC 04-02p6)

ADDYSG FEITHRIN AC ADDYSG I OEDOLION

Addysg Feithrin

Ni chafodd Addysg Feithrin rhyw lawer o sylw, ac eithrio gan y prif ddarparwr, Mudiad Ysgolion Meithrin (CC-15-01 p4). Mae papur MYM yn olrhain twf y mudiad ers ei sefydlu ym 1971 pan

nad oedd ond 9,745 o blant rhwng 3 a 4 oed yn medru'r Gymraeg a phan oedd 65 o ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae bron i 1000 o gylchoedd bellach yn aelodau o'r Mudiad. Nodir yn y papur bod y cynnydd mwyaf yn nifer y siaradwyr ifanc wedi digwydd yn bennaf yn yr ardaloedd mwy di-Gymraeg - yn bennaf yn y de ddwyrain ond hefyd yn y gogledd ddwyrain.

Addysg i Oedolion

Dywedodd ELWa wrth y Pwyllgor ei fod ar hyn o bryd yn gwario £3.1m ar y cynllun Cymraeg i Oedolion lle daw amryw o ddarparwyr at ei gilydd i ffurfio consortia. Cododd nifer y dysgwyr yn sylweddol rhwng 1994/95 (15,894) a 1999/2000 (23,634) ond cwmpodd i 21,011 yn 2000/01. Ni wyddys pam eto. Dywedant bod tystiolaeth gref o ffynonellau eraill mai dim ond cyfran fechan o fyfyrwyr sy'n dysgu siarad Cymraeg yn rhugl.

Ategwyd hynny gan gyfranwyr eraill a ddywedodd mai dim ond 94 o oedolion a oedd yn dysgu Cymraeg a fu'n llwyddiannus yn yr arholiadau Uwch yn 2000, a bod cyfran uchel o bobl yn rhoi'r gorau i gyrsiau iaith - tua 90%.

Roedd y cyfranwyr yn gytûn i raddau helaeth ynghylch y pynciau trafod a'r dyheadau. Soniwyd sawl gwaith am Wlad y Basg, a chymharwyd y £30m sy'n cael ei wario yno ar ddysgu'r iaith â £3m ELWa. Roedd galw hefyd am sefydlu corff megis HABE (Y Sefydliad ar gyfer Llythrennedd a Basgeiddio Oedolion) er mwyn cydlynu darpariaeth Cymraeg i Oedolion ledled Cymru. Argymhellodd Bwrdd yr Iaith yn eu strategaeth Cymraeg i Oedolion ym 1999 y dylid sefydlu uned gydlyn ganolog a fyddai'n gyfrifol am gynllunio strategol.

Cymharwyd hefyd y gwahaniaethau yn y ddarpariaeth. Roedd 1,800 o athrawon yn dysgu 40,000 o oedolion mewn 140 o ganolfannau iaith yng Ngwlad y Basg, a 750 o diwtoriaid yn dysgu 18,000 o oedolion mewn 8 o ganolfannau yng Nghymru. Yn sgil hynny, bu galw am fwy o ganolfannau iaith, ac argymhelliad y dylai'r Cynulliad gefnogi egwyddor cynnal cyrsiau preswyl dwys fel ffordd effeithiol/effeithlon o ddysgu neu loywi'r Gymraeg.

Ar y llaw arall, roedd un o'r ymatebwyr o'r farn nad oedd pobl sy'n symud i Gymru (hyd yn oed yn yr ardaloedd Cymraeg) na Chymry di-Gymraeg yn manteisio ar y cyrsiau Cymraeg i oedolion. Nid yw canran y bobl sy'n dechrau dysgu'r iaith drwy'r dulliau presennol, ac yn llwyddo, yn uchel. Teimlai fod y rhesymau dros hynny'n gymhleth, ond y dylid ymchwilio i'r hyn sy'n rhwystro pobl sydd â diddordeb rhag manteisio ar ddsbarthiadau Cymraeg. Gall y dulliau ariannu, sy'n mynnu bod hyn a hyn o bobl yn y dosbarth cyn y caiff arian, yn aml fod yn rhwystri i ddysgwyr yn yr ardaloedd lle nad oes llawer o bobl yn dysgu'r iaith. Fe allai'r ddarpariaeth fel ag y mae ar hyn o bryd, sy'n dibynnu ar ewyllys da ac ymroddiad y staff a'r dysgwyr, fod yn fethiant oni cheir strategaeth genedlaethol gyffredinol. Awgrymwyd felly y dylid llunio corff, ac iddo ddwy is-adran, a allai hwyluso darpariaeth strategaethau dysgu dwys a chymedrol.

Ymhlith y sylwadau eraill ynghylch darpariaeth Cymraeg i Oedolion roedd:

- Y dylai ELWa roi mwy o bwys ar ardaloedd gwledig, ac yn arbennig yr ardaloedd hynny megis Powys lle mae'r boblogaeth ar wasgar, yn ei fformiwla ariannu.
- Y dylai ELWa gynyddu pwysiad cyrsiau Cymraeg i oedolion o'r .25 ychwanegol presennol i .50, ac y dylai'r Cynulliad roi adnoddau cyfatebol

CYFIEITHU

Roedd cyfieithu'n un o'r pynciau a gododd droeon yn ystod yr adolygiad. Er mai ychydig o sylwadau ysgrifenedig a gafwyd am gyfieithu, manteisiodd sawl un ar y cyfle i sôn amdano yn chwe sioe lân y Pwyllgor.

Dywedodd sawl cyfrannwr y dylai'r Gymraeg fod yn iaith a ddefnyddir o ddydd i ddydd yn hytrach nag yn iaith sy'n cael ei chyfieithu i'r Saesneg, ac y dylid ymgynghoedd at sefyllfa lle bydd gweithio yn y ddwy iaith yn norm a lle bydd digon o sgiliau ieithyddol ym mhob sefydliad i ymateb i ymholiadau yn y ddwy iaith heb orfod troi at wasanaeth cyfieithu.

Dyma rai o'r prif faterion a nodwyd yn ystod yr adolygiad wrth sôn am gyfieithu:

- **Prinder cyfieithwyr** – Soniodd sawl mudiad am hyn, ond ychydig iawn o awgrymiadau a gafwyd ynghylch mynd ati i wella'r sefyllfa. Roedd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru o'r farn y dylai Prifysgol Cymru ystyried cynnig cwrs cyfieithu llawn amser, tra roedd ELWa'n cydnabod na lwyddwyd i recriwtio digon o gyfieithwyr yng Nghymru ac addawodd ymchwilio i'r sefyllfa.
- **Gormod o gyfieithu?** – Soniwyd droeon am flaenoriaethu gwaith cyfieithu. Dywedodd Bwrdd yr Iaith yn nyddiau cynnar yr adolygiad bod angen blaenoriaethu a thargedu gwaith cyfieithu a bod gormod o gyfieithu diangen yn digwydd. Teimlai un o'r ymatebwyr bod gormod o'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer y Gymraeg yn cael eu llyncu gan y diwydiant cyfieithu, yn arbennig o gofio'r prinder athrawon sy'n gallu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Ni chredai fod fawr o ddiben cyfieithu dogfennau technegol i'r Gymraeg, yn arbennig os byddai'r dogfennau hynny'n cael eu cyhoeddi beth amser ar ôl y Saesneg.
- **Mwy o gyfieithu ar y pryd?** – Bu galw am fuddsoddi cryn dipyn yn fwy mewn offer cyfieithu ar y pryd, a chynnig cyrsiau i hyfforddi pobl leol a gwirfoddolwyr i ddefnyddio'r

offer. Cefnogwyd y syniad o gael rhwydwaith o gyfieithwyr cymunedol gan sawl mudiad gan gynnwys y Mentrau Iaith a oedd o'r farn mai eu prif swyddogaeth fyddai darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i gyrff megis cynghorau cymuned a rhoi cyfle i bawb ddewis siarad Cymraeg neu Saesneg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol ffurfiol. Roedd Cymdeithas Gweithredu Gwirfoddol Cymru hefyd yn cefnogi'r syniad hwn ac yn dweud na ddylid rhwystro pobl rhag gweithredu yn eu dewis iaith. Ategodd on arall o'r ymatebwyr hyn, gan ddweud y dylai fod gan bawb hawl mewn cyfarfodydd cyhoeddus i glywed y trafodion yn eu dewis iaith a bod hynny'n golygu buddsoddi mewn cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg yn ogystal ag o'r Gymraeg i'r Saesneg.

- **Safonau** – Dywedodd Bwrdd yr Iaith mai un o'i dargedau oedd datblygu a safoni termau. Dywedodd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru y byddai'n fodlon bod yn gorff sy'n gyfrifol am safonau cyfieithu.
- **Strategaeth i ddatblygu cyfieithu yng Nghymru** – Galwyd am roi strategaeth o'r fath ar waith. Galwodd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru'n arbennig am gyflwyno strategaeth ar gyfer Cymru gyfan ac am astudiaeth o gyfraniad cyfieithu i broses dwyieithrwydd.

SWYDDOGAETHAU

Y Cynulliad Cenedlaethol

Mynegodd y rhan fwyaf o'r cyfranwyr farn ynghylch rôl y Cynulliad, Bwrdd yr Iaith a chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru o ran diogelu dyfodol y Gymraeg. Nid oes modd crybwyll pob un o'r safbwyntiau yn y crynodeb hwn, ond ceir ymgais isod i restru rhai o'r prif awgrymiadau.

Adnoddau – Cafwyd galwadau o sawl tu ar y Cynulliad i fuddsoddi cryn dipyn yn fwy o arian cyhoeddus yn y Gymraeg (er enghraifft, galwodd un grwp am wariant uniongyrchol o rhwng £100m a £200m y flwyddyn). Llwyddodd un ymatebydd Williams i gyfleu teimladau llawer iawn o'r cyfranwyr pan ddywedodd bod yn rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol glustnodi adnoddau sy'n gymesur â'i nod o sefydlu cenedl ddwyieithog.

Arweinyddiaeth – Pwynt arall a ategwyd dro ar ôl tro oedd bod angen i'r Cynulliad roi arweinyddiaeth wleidyddol glir yn unol â'r hyn a roddir gan lywodraethau Gwlad y Basg a Chatalunya i'w hieithoedd brodorol. Roedd yn bwysig hefyd bod y Cynulliad yn cyfleu negeseuon cadarnhaol ynghylch defnyddio'r Gymraeg. Dywedodd un cyfrannwr mai gwerth y Gymraeg yn y Cynulliad yw pryd, ble a sut y mae defnydd y Cynulliad o'r Gymraeg yn anfon negeseuon cadarnhaol at y rhai sy'n gwneud dewisiadau ynghylch iaith. Roedd un awdurdod lleol am i'r Cynulliad ymrwymo i gynnal ymgyrch hir dymor i hyybu ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r Gymraeg, tra roedd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol o'r farn nad yw'r Cynulliad yn

hyrwyddo Cymru fel gwlad ddwyieithog ac iddi ei hiaith draddodiadol.

Y Gymraeg fel thema drawsbynciol – Argymhellodd sawl grwp y dylai'r Cynulliad drin yr iaith fel thema drawsbynciol yn yr un modd ag yr ymdrinnir â chyfle cyfartal ac y dylid sefydlu Pwyllgor Sefydlog i'r perwyl hwnnw. Galwyd hefyd am sefydlu Pwyllgor Rhanbarth ar gyfer y cadarnleoedd Cymraeg.

Adleoli – Galwodd lleiafrif bach ond arwyddocaol ar y Cynulliad ac asiantaethau neu gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i symud eu pencadlysoedd o Gaerdydd i'r cadarnleoedd.

Cydlynu – Galwodd sawl mudiad ar y Cynulliad i sicrhau bod cyrff megis Awdurdod Datblygu Cymru, ELWa, y Bwrdd Croeso, Cyngor y Celfyddydau, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac ati'n cynnwys adfywio'r Gymraeg yn nod yn eu strategaethau a'u cynlluniau gweithredol er mwyn sianelu un ymrwymiad i greu Cymru gwirioneddol ddwyieithog. Aeth un mudiad gam ymhellach drwy alw ar y Cynulliad i feithrin cysylltiadau parhaol â gwledydd a rhanbarthau eraill a chanddynt arbenigedd ym maes cynllunio ieithyddol.

Materion eraill:

- Galwodd sawl un ar y Cynulliad i weithredu ar unwaith i ddiogelu'r iaith yn y cadarnleoedd - trafodir y rhain yn yr adran ar fenwfudo ac allfudo.
- Dylai'r Pwyllgor hefyd gofio am ddogfen Bwrdd yr Iaith "Cenhadaeth a Gweledigaeth: 2000-5" sy'n awgrymu nifer o bwyntiau gweithredu ar gyfer y Cynulliad ac yn annog y Cynulliad i gynnal ymgyrch barhaus i farchnata dwyieithrwydd yng Nghymru.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Cychwynnodd yr adolygiad ychydig cyn cyhoeddi argymhellion yr adolygiad pum mlynedd ar Fwrdd yr Iaith (a gynhaliwyd gan Newidiem). Dylai unrhyw drafod ar rôl Bwrdd yr Iaith yn y dyfodol ddefnyddio'r argymhellion hyn yn fan cychwyn. Gwnaethpwyd 26 o argymhellion; mae'r rhestr lawn ym mhapur y Pwyllgor CC-13-01(p.4). Rhestrir isod rai o'r argymhellion pwysicaf:

- Bod Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn adolygu ei strategaeth yng ngoleuni adolygiad y Cynulliad Cenedlaethol o'i strategaeth ei hun ar gyfer yr iaith Gymraeg ac yn cynhyrchu dogfen gynllunio ddiwygiedig sy'n nodi targedau penodol dros gyfnodau o bum mlynedd ar gyfer cynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn sectorau a chymunedau arbennig.
- Bod Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gwahodd cyfraniad gan y bobl tuag at ddatblygu polisi a strategaeth drwy gynnwys sefydliadau partner a chynrychiolwyr sectorau allweddol yn y broses ddatblygu.
- Bod Pwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol, wrth iddo adolygu ei bolisi, yn

manteisio ar y cyfle hwn i ystyried datblygu strategaeth gynhwysol ar gyfer y Gymraeg sy'n ystyried effeithiau cyrff cyhoeddus eraill ar yr iaith, sy'n amlinellu sut mae cydlynu gweithredoedd o blaid yr iaith ac sy'n nodi mecanweithiau i ddod â'r iaith fwyfwy i brif ffrwd gweinyddiaeth gyhoeddus yng Nghymru.

- Y dylai Bwrdd yr Iaith Gymraeg drafod â'r Cynulliad Cenedlaethol i ba raddau y gall barhau i gychwyn a monitro cynlluniau iaith Gymraeg cyrff cyhoeddus ac archwilio dulliau o ddatganol agweddau ar y broses fonitro i gyrff archwilio eraill priodol.
- Y dylai Bwrdd yr Iaith Gymraeg gydweithio'n agos i ddatblygu diwylliant cadarnhaol o gefnogaeth i'r Gymraeg ym mhob maes gweinyddu a datblygu cyhoeddus.

Roedd Newidiem hefyd yn argymhell y dylai Bwrdd yr Iaith ystyried sut i gryfhau ei bresenoldeb rhanbarthol yng Nghymru. O'r ychydig ymatebwyr a soniodd yn benodol am Fwrdd yr Iaith, roedd sawl un yn gytûn bod presenoldeb o'r fath yn hanfodol er mwyn i'r Bwrdd allu ymwneud â phroses paratoi cynlluniau datblygu a strategaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Roedd datblygu a chryfhau partneriaethau hefyd yn un o'r meysydd allweddol a nodwyd ar gyfer Bwrdd yr Iaith. Dywedodd un o'r ymatebwyr na all Bwrdd yr Iaith sicrhau ar ei ben ei hun bod modd cynnal yr iaith. Rhaid i'r Bwrdd annog ei bartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol a sicrhau y caiff yr arian sydd ar gael ei flaenoriaethu a'i dargedu yn y ffordd fwyaf effeithiol i ddyfodol yr iaith. Cafwyd cryn dipyn o sylwadau ynghylch ariannu'r Bwrdd, ac roedd sawl un o'r ymatebwyr o'r farn bod angen rhoi mwy o arian ac adnoddau i'r Bwrdd er mwyn iddo allu bod yn gwbl effeithiol.

O ran rôl uniongyrchol Bwrdd yr Iaith, dywedodd rhai y dylai ganolbwyntio yn ei rôl ganolog ar gynllunio ieithyddol a sicrhau y cydymffurfir â Deddf 1993.

Cyrff Newydd

Roedd galw mawr am sefydlu cyrff newydd i gefnogi'r Gymraeg a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Galwodd sawl un ar y Cynulliad i sefydlu comisiwn annibynnol i edrych ar yr argyfwng yn y cadarnleoedd Cymraeg ac awgrymu atebion. Awgrymodd un grwp y dylid sefydlu **cyngor statudol etholedig** i gynrychioli buddiannau'r cymunedau Cymraeg. Galwyd hefyd am **Awdurdod Datblygu Economaidd** yn arbennig ar gyfer y cymunedau Cymraeg, ac ategwyd hynny gan gyrff eraill sy'n gweithio ym maes yr economi.

Awgrymwyd bod angen **gweithgor iaith cenedlaethol**, a fyddai'n cynnwys cyrff cenedlaethol sy'n gweithio ym maes iaith dan gadeiryddiaeth Bwrdd yr Iaith ac wedi'i ariannu gan y Cynulliad. Roedd un academydd nodedig am weld y Cynulliad yn buddsoddi mewn nifer o sefydliadau newydd i gefnogi'r iaith, yn eu plith **Ganolfan Safoni Termau Genedlaethol**, **Canolfan Cynllunio Ieithyddol**, **Canolfan Genedlaethol ar gyfer Addysgu'r Gymraeg**,

Bwrdd Ymgynghorol ar Ddwyeithrwydd - i astudio effaith newidiadau cymdeithasol-economaidd gan gynnwys cynllunio rhanbarthol, yr economi, trafndiaeth, cyfathrebu, y cyfryngau a datblygu rhyngwladol - a **Chanolfan Adnoddau Dwyieithog** i baratoi meddalwedd i fyd busnes.

1. Acen

- Angelsey County Council
- Arad Goch
- Agriculture and Rural Development Committee
- Agriculture and Rural Development Committee, Glyn Davies, Chair
- Arts Council of Wales
- Association of Welsh Community Health Councils
- Baker, Prof Colin
- Batcup, Madoc
- BBC
- Beer, Kenneth
- Bird, Margaret
- Bowyer, Gwynn
- Brake, Phillip - University of Wales, Aberystwyth, Centre for Continuing Education
- British Council
- British Medical Association Cymru Wales - Dr RBK Broughton
- Bro Taf Health Authority
- Caerphilly County Borough Council - David A Thomas
- Cairns, Alun - AM, SWWR Chair
- Campaign for the Protection of Rural Wales
- Carmarthenshire County Council
- Carter, Professor Harold

● CBAC/WJEC - Dr Emyr Davies
● CBI Cymru/Wales
● Cefn
● CERED - Theatr Felinfach
● Ceredigion County Council
● CEWUNION - Angela Pulman, Community Enterprise Wales
● Charles Lloyd Foundation - NOT TO BE MADE PUBLICLY AVAILABLE
● City and County of Swansea
● Clwyd Alyn Housing Association
● Commission for Racial Equality
● Consignia
● Council of Museums in Wales
● Countryside Council for Wales
● Cwmni Iaith Cyf
● Cwmni'r Frân Wen
● CYD
● Cyfeillion LIn - Dr Robyn Lewis
● Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd
● Cylch yr Iaith
● Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
● Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
● Cymru Annibynnol/Independent Wales Party
● CYMUNED
● Cyngor Bro Dyffryn Cennen
● Cyngor Gwynedd - Y Bala, Calon Gynnes Cymru
● CYTUN - Rev. Aled Edwards,
● Dafis, Awel Fflur
● Dafis, Llinos
● Davies AM, David
● Davies, Lord Gwilym Prys

• Davies, Robin
• Denbigh Council
• Dewi Sant Housing Association/Cymdeithas Tai Dewi Sant
• Duke of Edinburgh Award Scheme
• Economic Development Committee
• Eglwys Bresbyteraidd Cymru
• ELWa
• Employment Service
• Environment Agency Wales
• Environment Planning and Transport Committee (NAfW)
• Estyn
• Evans, B
• Federal University of Wales
• Federation of Small Businesses (Wales)
• Flintshire County Council
• Golwg - Dylan Iorwerth
• Greaves, Violet
• Gruffudd, Heini
• Gwyn, Robin
• Gwynedd Council
• Gwyther, Christine - AM, Chair EDC
• Health and Social Services Committee (NAfW)
• Henley, Prof Andrew - School of Management and Business, Aberystwyth University
• Health and Safety Executive - Terry Rose
• Hughes, Nan
• Ifan, Gwyn Siôn
• Imaginet
• Inland Revenue Wales - Peter R Robins
• John, Lawrence

- Jones, B
- Jones, Allan Wynne
- Jones, M Arnold
- Lewis, Dr Hywel Glyn
- Lloyd, D
- McDougall, John
- Meek, Elin
- Menter a Busnes
- Menter Bro Myrddin
- Menter Cwm Gwendraeth
- Menter Iaith Gwynedd
- Menter Iaith Maldwyn
- menter iaith: Dinbych - Conwy
- Mentrau Iaith Cymru - Cefin Campbell
- Mercator
- Merched y Wawr
- Miners, WE
- Morgan, Baudewijn
- Mudiad Ysgolion Meithrin
- National Centre for Language and Culture
- National Eisteddfod
- National Library of Wales
- National Museums and Galleries of Wales
- New Opportunities Fund
- Newcome, Lynda
- Newport County Council
- North Wales Bilingualism Forum
- North Wales Regional Committee
- Owen, J
- Owen, Mr Stephen

● Parri, Robin
● PCS - Jeff Evans
● Pembrokeshire Coast National Park - Nic Wheeler
● Pembrokeshire County Council
● Pem'shire & Derwen NHS Trust
● Phillips, Dr Dylan
● Phillips, Laura
● Plaid Cymru Parliamentary Team
● Plaid Cymru Party of Wales
● Popeth Cymraeg Welsh Unlimited
● Powys County Council
● Powys Welsh for Adults Consortium - Mr T. Alun V. Evans, Chairman
● Powys Youth Forum/Powys CC - Alan Whittick
● Rhondda Cynon Taff County Borough Council
● Roberts, Dafydd
● Roberts, Diana - Director, Popeth Cymraeg Welsh Unlimited
● Roberts, Elfed
● Roddick, Mr Winston
● RNIB
● S4C
● Sgript Cymru
● Smith, Peter
● Smith, Prof. J Beverley
● Snowdonia National Park
● South Wales Fire Service
● South Wales Police
● South West Wales Regional Committee
● Sports Council for Wales - Deris Williams (Regional director)
● Swansea NHS Trust - Central Clinic
● Tewdwr-Jones, Dr Mark

- Torch Theatre - Peter Doran
- Theatr Gwynedd
- Thomas, Ffion Mair
- Thomas, Gwenda - AM, Chair LGH
- Thomas, Gwyn
- Thomas, Roy
- Tor-faen County Borough Council
- Tourism South and West Wales - Peter Cole, MD
- TUC Cymru
- UCAC
- Urdd Gobaith Cymru
- Wales Association of Community and Town Councils
- Wales Federation of Young Farmers' Clubs
- Wales Council for Voluntary Action
- Wales Tourist Board
- WDA
- Welsh Books Council
- Welsh Consumer Council
- Welsh Independent Producers
- Welsh Language Board
- Welsh Liberal Democrats
- Welsh Library Association
- Welsh Local Government Association
- Welsh National Opera - Geraint Talfan Davies, Chair
- Welsh National Parks - Chris Gledhill
- Williams, Alwena
- Williams, Arthur
- Williams, Catrin
- Williams, Prof Colin
- Williams, Dr Emyr Wynn Williams

- Williams, Glyn
- Wrexham County Borough Council
- Writers' Guild of GB
- Writers' Guild of GB - William Owen Roberts